**(HCC 566)**

**Cofnodion cyfarfod o Gyfarwyddwyr Hybu Cig Cymru a gynhaliwyd am 10.00am yn Nhŷ Rheidol, Parc Merlin, Aberystwyth ddydd Gwener 7 Mawrth 2014**

**Yn Bresennol:** Dai Davies (Cadeirydd)
Will Haresign, Bethan Wynne Jones, Gwynn Angell Jones, Prys Morgan, Graham Probert, Glyn Roberts, Richard Rogers, Richard Tudor, Wyn Williams, John Yeomans

**Yno hefyd:** Gwyn Howells (Prif Weithredwr)

Laura Dodds (Rheolwraig Datblygu'r Farchnad)
Alan Morris (Rheolwr Cyfathrebu)
Bryan Regan (Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol)

Julie Davies-Jones (Ysgrifenyddiaeth)
Jo Horder (Swyddog Cig Coch) – Eitemau 9 a 10

1. **Croeso a Sylwadau'r Cadeirydd**

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd.

Rhoddodd y Cadeirydd ddiweddariad llafar am ddigwyddiadau a chyfarfodydd allweddol y bu'n eu mynychu ers y cyfarfod blaenorol:-

*Ionawr 2014*

Bu'r Cadeirydd mewn cyfarfod dros frecwast wedi'i drefnu gan Grŵp Gwyliau Fferm a Chefn Gwlad Sir Gaerfyrddin yn ystod Wythnos Brecwast Ffermdy.

Cyflwynodd y Cadeirydd a'r Rheolwr Datblygu'r Diwydiant dystiolaeth i Bwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru ynglŷn â'r ymchwiliad i Reoli Tir yn Gynaliadwy - Tystiolaeth am yr Economi Wledig.

Bu'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr mewn Fforwm Ardoll Cig Coch (Gweler Eitem 8).

Bu'r Cadeirydd mewn cyfarfod o Bwyllgor Monitro Rhaglenni Llywodraeth Cymru lle trafodwyd y PAC a Chronfeydd Strwythurol Ewropeaidd.

*Chwefror 2014*

Mynychodd y Cadeirydd gynhadledd flynyddol yr NFU, 25–26 Chwefror 2014.

*Mawrth 2014*

Cynrychiolodd y Cadeirydd HCC yn Nerbyniad Brecwast Undeb Amaethwyr Cymru yng Nghomisiwn yr UE ym Mrwsel. Cafwyd anerchiad gan y Cadeirydd am bwysigrwydd PGI a soniodd am ganlyniadau gwaith ymchwil a wnaed gan HCC ac a gyd-ariannwyd gan y Comisiwn Ewropeaidd, sy'n dynodi cynnydd sylweddol yn yr ymwybyddiaeth o PGI mewn gwledydd targed yn yr UE.

2. **Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Gary Haggaty a Helen Minnice-Smith (Llywodraeth Cymru).

3. **Datganiad o Fuddiannau**

Nodwyd Datganiadau o Fuddiannau fel a ganlyn:-

Trafodaeth a allai ddigwydd mewn perthynas â Rheoli Credyd - John Brereton, Prys Morgan a Wyn Williams.

4. **I dderbyn a chymeradwyo cofnodion cyfarfod y Bwrdd a gynhaliwyd ddydd Gwener 17 Ionawr 2014 (HCC 557)**

Cymerwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ddydd Gwener 17 Ionawr 2014 wedi'u darllen, a chawsant eu derbyn gan y Bwrdd ac yna'u llofnodi gan y Cadeirydd.

5. **Materion yn codi**

*Ymgyrch hysbysebu Cig Oen Cymru PGI 2013*

Byddai adroddiad am ddata gwerthiannau cig oen yn ystod yr ymgyrch yn cael ei rannu â'r Bwrdd yn y cyfarfod nesaf.

*Adolygiad o Gynllun Strategol HCC*

Byddai rhestr ar gyfer yr adolygiad o Gynllun Strategol HCC yn cael ei baratoi ar gyfer cyfarfod nesaf y Bwrdd.

6. **Adroddiadau HCC**

a. *Adroddiad Gweithgareddau (HCC 558)*

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen.

b. *Bwletin y Farchnad (HCC 559)*

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen.

Cytunwyd diwygio terminoleg y penawdau ar y graffiau o dan Ystadegau Cynhyrchu ar gyfer Gwartheg a Defaid

Mynegwyd pryder ynglŷn â’r gostyngiad ym mhrisiau cig eidion yn y DG. Un o’r rhesymau am hyn oedd bod mwy o gig eidion o Iwerddon yn cael ei fewnforio i’r DG.

Roedd mewnforion cig eidion a chig llo ym mis Rhagfyr 9% yn uwch na blwyddyn yn gynharach oherwydd cynnydd yn y mewnforion o Iwerddon. Hefyd, cofnodwyd mwy o fewnforion o sawl cyflenwr bach, gan gynnwys yr Almaen, Denmarc, Namibia a Botswana. Er bod 5% yn llai o fewnforion uniongyrchol o Wlad Pwyl i’r DG na’r llynedd, roedd allforion Pwylaidd i weddill aelod-wladwriaethau yr UE yn fwy yn ystod yr un cyfnod.

c. *Digwyddiadau i Ddod (HCC 560)*

Cymerwyd bod yr uchod wedi’i ddarllen.

d. *Ariannol – Incwm a Gwariant a’r Fantolen tan 31 Rhagfyr 2013 (HCC 561)*

Cymerwyd bod yr uchod wedi’i ddarllen a chafodd ei grynhoi gan y Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol.

Cytunwyd trosglwyddo amcangyfrif cynnyrch ar gyfer blwyddyn ariannol 2013 / 2014 i’r Bwrdd.

7. **I dderbyn cyflwyniad am werthusiad o ymgyrch hysbysebu Cig Eidion Cymru PGI 2013**

Cyflwynwyd canlyniadau’r ymgyrch gan y Rheolwr Datblygu'r Farchnad:-

Cynhaliwyd yr ymgyrch “Dewch Adref dros y Nadolig” yn ystod misoedd Tachwedd a Rhagfyr 2013.

Roedd yr ymgyrch yn cynnwys hysbysebion teledu a digidol, posteri bwrdd a microwefan benodol wedi’i chysylltu â chystadleuaeth a gwobrau. Ar yr ochr fân-werthu, cafodd taflenni rysáit eu dosbarthu i gigyddion annibynnol ac archfarchnadoedd ledled Cymru.

I grynhoi, roedd y canlyniadau o’r gwerthuso yn dderbyniol dros ben a chyrhaeddwyd y targedau.

O ran elwa ar fuddsoddiad, mae hysbysebion digidol wedi bod yn llwyddiannus a chost effeithlon dros ben.

Câi’r canlyniadau eu gwerthuso’n llawn cyn yr ymgyrch yn 2014.

8. **<u>I dderbyn diweddariad llafar am Ddosbarthu Ardoll Cig Coch Prydain</u>**

Cynhaliwyd cyfarfod rhwng y Cadeirydd a Phrif Weithredwyr AHDB, HCC, LMNCI a QMS ar 24 Ionawr 2014.

Cafwyd adroddiad gan y Prif Weithredwr am y cyfarfod:-

Roedd yr holl bartneriaid wedi cytuno ac wedi llofnodi'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth. Roedd y cytundeb yn sail i gytundeb cydweithredol rhwng AHDB, HCC, LMNCI a QMS ar gyfer cydweithio a chyfnewid gwybodaeth am weithgareddau. Byddai'n weithredol i ddechrau o 1 Ebrill 2014 – 31 Mawrth 2015, a châi ei adolygu'n flynyddol.

Elfen bwysig oedd cymal a gafodd ei gynnwys yn y Memorandwm i amlinellu'r angen i ystyried y dewisiadau ar gyfer dosbarthu'r Ardoll Cig Coch yn unol â strategaethau a pholisïau llywodraeth y DG a'r llywodraethau datganoledig.

Hefyd, byddai'r Fforwm yn fodd i bartneriaid gyfarfod yn rheolaidd i fwrw ymlaen â materion, adolygu cyflawniad a thrafod gweithgareddau, etc.

Croesawodd y Bwrdd yr hyn a gyflawnwyd.

9. **<u>Cynllun Busnes HCC 2014/2015</u>**

a. *<u>I gymeradwyo'r crynodeb o newidiadau i Gynllun Busnes drafft HCC 2014 / 2015 sy'n codi o gyfarfod y Bwrdd ar 17 Ionawr 2014 (HCC 562)</u>*

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen.

Cafodd y papur ei grynhoi gan y Prif Weithredwr a diolchodd i aelodau'r Bwrdd am eu mewnbwn.

Cafodd Cynllun Busnes 2014 / 2015 ei ddiwygio er mwyn adlewyrchu'r newidiadau a nodwyd.

b. *<u>I gymeradwyo Cynllun Busnes HCC ar gyfer 2014/2015 (HCC 563)</u>*

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen.

Yn amodol ar y mân newidiadau cyflwyniadol a nodwyd, cafodd Cynllun Busnes HCC ar gyfer 2014 / 2015 ei gymeradwyo gan y Bwrdd.

10. **<u>I ystyried drafft o Gynllun Corfforaethol HCC 2014 / 2017 (HCC 564)</u>**

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen, a chafodd ei dderbyn gan y Bwrdd.

11. **<u>I dderbyn diweddariad llafar ar EIDCymru – y gronfa ddata ar gyfer symud defaid</u>**

Rhoddwyd y sefyllfa ddiweddaraf i'r Bwrdd gan y Prif Weithredwr: -
Roedd ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar "EIDCymru – system electronig i adrodd symudiadau defaid / geifr" i fod i gael ei lansio yn ystod mis Mawrth 2014.

Parhaodd yr ymgysylltiad rhwng HCC a Llywodraeth Cymru mewn perthynas â HCC yn goruchwylio gwasanaeth biwro ar gyfer EIDCymru.

Bwriedid i Lywodraeth Cymru a HCC gyfarfod â chynrychiolwyr o Lywodraeth yr Alban a ScotEID yn y dyfodol agos er mwyn adolygu eu system gronfa ddata.

12. **Y Pwyllgor Cynghori Y&D**

a. *I gael adroddiad llafar am y Pwyllgor Cynghori Ymchwil a Datblygu a gynhaliwyd ddydd Mercher 5 Mawrth 2014*

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen.

Rhoddodd y Cadeirydd adroddiad llafar am y prif bynciau a drafodwyd yn y cyfarfod.

b. *I dderbyn y cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Cynghori Y&D a gynhaliwyd ddydd Mercher 4 Rhagfyr 2013 (HCC 565)*

Cymerwyd bod y cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Cynghori Y&D a gynhaliwyd ddydd Mercher 4 Rhagfyr 2013 wedi'u darllen, a chawsant eu derbyn gan y Bwrdd.

13. **Unrhyw fater arall**

*Strategaeth y DU ar gyfer technolegau amaethyddol*

Rhoddwyd manylion i'r Bwrdd am botensial trafodaethau gan HCC ynghylch cyllido Amaeth-Technegol. Cynigiwyd y dylid datblygu Canolfannau Arbenigedd ledled y DG, a thaw'r diwydiant a ddylai benderfynu ynglŷn â'r Canolfannau roedd eu hangen i hybu'r diwydiant tuag ymlaen.

Yn ddiweddar, roedd Llywodraeth y DG wedi cyhoeddi "A UK strategy for agricultural technologies". Nod y strategaeth oedd caniatáu:-

*"i'r DG arwain y byd mewn technoleg amaethyddol, arloesedd a chynaladwyedd; manteisio ar gyfleoedd i ddatblygu a mabwysiadu technolegau newydd a chyfredol, cynhyrchion a gwasanaethau i wella cynhyrchiant; a chyfrannu at ddiogelwch bwyd a datblygu rhyngwladol yn fyd eang."*

Cytunwyd bod HCC yn ymgymryd, ar ran sector cig coch Cymru, mewn trafodaethau â'r Cyngor Arweinyddiaeth Amaeth Technegol a rhanddeiliaid eraill

cig coch Cymru i wneud yn siŵr fod anghenion y sector wedi'u cynrychioli wrth i themâu blaenoriaethol y Canolfannau gael eu datblygu.

14. **Dyddiad y cyfarfod nesaf**

Dydd Gwener 9 Mai 2014

**Llofnodwyd…………………………….**
**Cadeirydd HCC**